RHIFYN ISSUE 21
14.02.20

Llais Llantrisant

GWASANAETH ARBENNIG
SPECIAL ASSEMBLY

Diolch yn fawr iawn, unwaith eto, i Mr Coleman am ddod draw i'r ysgol ar Chwefror 14eg i gynnal gwasanaeth arbennig gyda phlant yr ysgol. Neges gwasanaeth Mr Coleman y tymor hwn oedd gofalu am ein gilydd.

Many thanks, once again, to Mr Coleman who came along to school on February 14th to hold a special assembly with the children. The message of Mr Coleman's assembly this term was caring for one another.



SALWCH AC APWYNTIADAU
ILLNESS AND APPOINTMENTS

Fel ag y nodwyd o'r blaen yn rhifyn 1, 12 ac 13 o 'Llais Llantrisant', gofynnir i rieni ffonio'r ysgol mewn da bryd os na fydd plentyn yn yr ysgol oherwydd salwch neu apwyntiad meddygol. Os gwelwch yn dda, peidiwch â rhoi gwybod i'r staff wrth y glwyd yn y bore gan eu bod yn debygol o anghofio i drosglwyddo'r neges ynghanol holl brysurdeb y glwyd yn y bore. Hefyd, cofiwch fod angen cardiau / llythyron apwyntiad ar Mrs Krieger yn Swyddfa'r Ysgol ar gyfer y system cofrestru / absenoldeb.

As noted in issues 1, 12 and 13 of 'Llais Llantrisant', parents are asked to telephone school if a pupil is absent or has a medical appointment. Please, don't relay this message to any staff carrying out gate duty at the rear of the school in the morning since they are likely to forget the message during the hullabalo of the busy morning. Also, please remember that Mrs Krieger in the School Office needs appointment cards / letters for the school's electronic registration / absence system.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

14.02.20 - Plant yn gorffen ar gyfer Hanner Tymor
Children break up for Half Term
24.02.20 - Plant yn dychwelyd ar ôl Hanner Tymor
Children return following Half Term
02.01.20 - Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi (gwisgoedd Cymreig)
St David's Day celebrations (Welsh costumes)
06.03.20 - Yr Eisteddfod Gylch - Ysgol Llanhari
Regional Eisteddfod - Ysgol Llanhari
27.03.20 - Yr Eisteddfod Sir - Pafiliwn Porthcawl
County Eisteddfod - Porthcawl Pavilion
03.04.20 - Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Pasg
Children break up for the Easter holidays

CHWARAEON
SPORTS

Rydym wedi cael cwpl o wythnosau prysur iawn gyda'r plant yn cystadlu mewn nifer o dwrnameintiau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi. Ar Ionawr 30ain, aeth Mr Jones â thîm o ferched CA2 i gymryd rhan mewn twrnamaint pêl-droed i ferched a drefnwyd gan yr Urdd yn Nhrefforest. Rygbi oedd ffocws y dydd ar Ionawr 31ain gyda thîm arall o blant yn teithio i Drefforest unwaith eto ble enillon nhw bob gêm yn ystod y dydd! Yn olaf, ar Chwefror 13eg, diwrnod arall o bêl-droed gyda Mr Jones a'r bechgyn yn dod yn ail a phêl-rwyd gyda Mrs Jenkins yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant gyda'r merched yn fuddugol ac yn symud ymlaen at y rownd nesaf. Dydd Gwener, Chwefror 30th aeth tîm o fechgyn rygbi i gymryd rhan mewn gŵyl rygbi arall yn Nhrefforest - cyfnod prysur iawn yn y byd chwaraeon!









We've had a couple of busy weeks with the children competing in a number of football, netball and rugby tournaments. On January 30th, Mr Jones took a team of KS2 girls to particapte in a football tournament organised by The Urdd in Treforest. Rugby was the focus of the day on January 31st with another team of children travelling to Treforest once again where they won every game they played during the day! Finally, on February 13th, another day of football with Mr Jones and the boys coming second and netball with Mrs Jenkins in Llantrisant Leisure Centre where the girls came first and will now move on to the semi-finals. Friday, February 14th saw a team of boys visit Treforest once again to take part in a rugby festival - a very busy sporting period!



CROESO ATOM
WELCOME

Croeso cynnes i Mrs Griffiths oedd wedi dechrau gweithio gyda ni ar Chwefror 10fed . Bydd Mrs Griffiths yn gweithio fel Cynorthwyydd Addysgu yn Nosbarth 7 bob bore a fel Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch ar draws yr ysgol bob prynhawn. Gobeithio y bydd Mrs Griffiths yn ymgartrefu ac yn mwynhau gweithio gyda'r plant!



A warm welcome to Mrs Griffiths who started working with us on February 10th. Mrs Griffiths will be working as a Teaching Assistant in Class 7 each morning and as a Higher Level Teaching Assistant across the school each afternoon. We hope Mrs Griffiths settles in well and enjoys working with the children!

DIOGELWCH Y WE
INTERNET SAFETY

Petai ymwelwyr wedi crwydro'r ysgol ar Chwefror 11eg, byddant wedi sylwi fod yr holl blant yn brysur iawn yn trin a thrafod byd y we. Pwysig iawn yw trosgwlyddo negeseuon cadw'n ddiogel ar y we, yn enwedig i'r plant hŷn gan ein bod yn gweld a chlywed am fwy a mwy o blant CA2 yn defnyddio apiau a gwefannau sydd ddim yn addas at eu hoedran. Cliciwch ar y llun isod i ddarllen dogfen wybodaeth a bostiwyd ar wefan yr ysgol fis Chwefror diwethaf.

Were visitors to have been walking around school on February 11th, they would have noticed that all the children were busy during the day discussing the world of the internet. It's essential to convey the important messages of keeping safe when online, especially since we see and hear of more and more of our older KS2 children using apps and websites which aren't suitable for their age. Click on the image below to read an information leaflet which was posted on the school website last February.



YSBYTY FELINDRE
VELINDRE HOSPITAL

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi'r digwyddiad ar Ionawr 31ain i godi arian tuag at Ysbyty Felindre ac i ddangos ein cefnogaeth i dîm rygbi Cymru yn eu gêm gyntaf ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad eleni. Môr o goch oedd o'n blaenau yn yr ysgol gyda'r plant a'r staff yn codi £341.05 tuag at yr elusen.

Many thanks to all who supported the event on January 31st to raise money for Velindre Hospital and to show our support for the Welsh rugby team in their first match of the Six Nations this year. We had a sea of red before us with all the children and staff raising £341.05 for the charity.



Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.cymru**

YR EISTEDDFOD YSGOL
THE SCHOOL EISTEDDFOD

Ar Chwefror 5ed, daeth dau gyn-aelod o staff atom i feirniadu cystadlaethau yn ein Heisteddfod Ysgol. Braf iawn oedd croesawu Mrs Thomas a Mrs Davies atom am y dydd. Anodd iawn oedd y penderfyniadau ond gweler isod y plant fydd yn mynd ymlaen at yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Llanhari ar Fawrth 6ed. Pob lwc iddynt i gyd a da iawn wir i bawb fu'n cystadlu. Diolch, hefyd, i Mrs Mair Williams am y dasg anodd o feirniadu'r cystadlaethau ysgrifenedig. Cliciwch yma i weld llu o luniau Eisteddfod yr Ysgol.

On February 5th, three former members of staff came along to school to judge the competitors in our school Eisteddfod. It was great to welcome back Mrs Thomas and Mrs Davies for the day. Many difficult decisions had to be made but see below those pupils who will be moving on to the Regional Eisteddfod in ysgol Llanhari on March 6th. The best of luck to them all and well done to all those who competed. Many thanks also to Mrs Mair Williams for carrying out the difficult task of judging the written competitions. Click here to view a full album of School Eisteddfod photographs.











YMWELIAD YR URDD
THE URDD'S VISIT

Ar Chwefror 13eg, daeth Lauren o'r Urdd i ymweld â Blwyddyn 6 i gynnal gweithdau gemau drama. Cafodd y plant lawer o hwyl a sbri - Diolch, Lauren!

On February 13th, Lauren from the Urdd came along to school to hold a drama games workshop with our Year 6 pupils . The children had great fun - Thanks, Lauren!





Morgannwg Ganol

Y GRHA
THE PTA

Diolch yn fawr iawn i aelodau'r GRhA am gyflwyno siec o £14,255.96 i gyfrannu at gost y Chromebooks a'r sgrîns rhyngweithiol newydd. Sôn am blant ffodus!

Many thanks to the members of the PTA who presented the children with a cheque for £14,255.96 towards the cost of the new Chromebooks and interactive screens. Lucky pupils!



MWYNHEWCH Y GWYLIAU
ENJOY THE HOLIDAYS

Mwynhewch wyliau hanner tymor a gwelwn ni chi am 8:50 yb ar Chwefror 24ain.

Enjoy the half term break and we'll see you at 8:50 am on February 24th.

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**